OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 401

## Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

## RHAN 2

## CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Trosglwyddo cyfrifoldeb am gynlluniau datblygu unigol*

**Cais awdurdod lleol i drosglwyddo cynllun i gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach**

**13.**—(1) Rhaid i gais gan awdurdod lleol o dan adran 36(2) o Ddeddf 2018 fod corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yn dod yn gyfrifol am gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr yn y sefydliad—

(a) cael ei wneud yn ysgrifenedig, a

(b) dod gyda chopi o'r cynllun, oni bai bod gan y corff llywodraethu gopi ohono eisoes.

(2) Mae'r cyfnod a ragnodir at ddibenion adran 36(3) o Ddeddf 2018 (y cyfnod y caiff awdurdod lleol atgyfeirio mater at Weinidogion Cymru ar ei ôl)—

(a) yn dechrau â'r diwrnod y mae'r corff llywodraethu yn cael y cais o dan adran 36(2), a

(b) yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o 20 niwrnod amser tymor sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod a grybwyllir yn is-baragraff (a).

(3) Pan fo corff llywodraethu yn cytuno i gais awdurdod lleol o dan adran 36(2)—

(a) rhaid iddo roi gwybod i'r awdurdod lleol yn ysgrifenedig am ei gytundeb, a

(b) mae'n dod yn gyfrifol am y cynllun o dan adran 12(4) o Ddeddf 2018—

(i) ar y diwrnod y cytunir arno rhwng y corff llywodraethu a'r awdurdod i'r cyfrifoldeb gael ei drosglwyddo;

(ii) fel arall ar y diwrnod y mae'r awdurdod yn cael cytundeb ysgrifenedig y corff llywodraethu i'r cais.

(4) Ym mharagraff (2), ystyr "diwrnod amser tymor" mewn perthynas â sefydliad yn y sector addysg bellach yw diwrnod y mae'r sefydliad i fod i gwrdd at ddiben addysgu myfyrwyr ar yr amod bod y diwrnod hwnnw o fewn cyfnod amser y mae'r sefydliad yn cyflenwi'r rhan fwyaf o'i gyrsiau llawnamser ynddo.